Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Cyfeiriadur y Tîm Atal Digartrefedd o Wasanaethau Cymorth ym Maes Tai 2024/2025 Ionawr 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

## Cynnwys


Rhagarweiniad 3

Beth yw cymorth ym maes tai? 3

Manylion cyswllt 4

Llwybr Atal Digartrefedd 4

Llwybr Cadarnhaol Pobl Ifanc 5

Swyddogion Atal Digartrefedd 5

Llety Dros Dro a Chynnal Tenantiaethau 5

Swyddogion Brysbennu Atal Digartrefedd 6

Un Llwybr Mynediad at Dai (Swyddogion Asesu) 6

Rhestr o wasanaethau cefnogi 7

Cefnogaeth gyffredinol 7

Cefnogaeth ar gyfer Cam-drin Domestig 12

Tîm Cymorth i Deuluoedd 12

Cefnogaeth Iechyd Meddwl 13

Prosiectau Dan 25 15

Cefnogaeth Camddefnyddio Sylweddau 16

Gwasanaethau ychwanegol 17

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

## Rhagarweiniad

Mae digartrefedd yn cynnwys pethau fel cysgu ar soffas ffrindiau, byw mewn llety anaddas, cysgu mewn gwelyau at argyfwng a chysgu ar y stryd. Mae'n golygu wynebu profiadau anodd a thrawmatig. Mae digartrefedd neu fod mewn perygl o ddigartrefedd yn sefyllfa all godi, a pharhau, am lawer o wahanol resymau, gan gynnwys cael eich troi allan o'ch cartref (nid oherwydd bai'r tenant o reidrwydd), perthynas/teulu'n chwalu, methu ymdopi oherwydd trawma neu anghenion cefnogaeth eraill, ac yn syml, pobl heb ddigon o arian i gadw eu cartrefi, efallai oherwydd colli eu swyddi neu newidiadau eu budd-daliadau.

Darperir ein gwasanaethau cymorth tai i bobl 16 oed a hŷn sy'n byw yn Sir Ddinbych ac yn ddigartref neu mewn perygl o golli eu cartrefi. Ein nod yw atal digartrefedd lle bynnag y bo modd, cydweithio â'r gymuned a'n partneriaid i ganfod yr achosion a mynd i'r afael â hwy, a rhoi'r grym i bobl fyw mor annibynnol ag y gallant.

### Beth yw cymorth ym maes tai?

Mae cymorth ym maes tai'n helpu pobl i ddatblygu neu gynnal y sgiliau a'r hyder i fyw mor annibynnol â phosib. Gall fod ar ffurf tai â chymorth (lle mae pobl yn byw mewn prosiect llety ac fel arfer angen rhywfaint o gefnogaeth ychwanegol i ddatblygu eu sgiliau byw yn annibynnol) neu 'gefnogaeth yn ôl yr angen' (lle nad yw gweithiwr cefnogi'n gysylltiedig ag un llety 'penodol' ac felly'n gallu gweithio â phobl yn eu cartrefi eu hunain neu ble bynnag y maent yn byw ar y pryd).

Mae cyfyngiad amser i'r holl gefnogaeth, rhwng 6 a 24 mis fel arfer, gan ddibynnu ar anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn. Y sawl sy'n derbyn cymorth sy'n llywio'r gefnogaeth a ddarperir, ond gall gynnwys cymorth gyda phethau fel:

- Bod yn ddiogel, cael sicrwydd a gwella ansawdd bywyd
- Datblygu sgiliau byw'n annibynnol
- Cael trefn ar faterion ariannol; er enghraifft, cefnogaeth â chyllidebu, mynd i'r afael ag ôl-ddyledion, cael mynediad at gyngor ariannol
- Cael mynediad at fathau o gefnogaeth a chyfleoedd eraill buddiol, gan gynnwys cyflogaeth / hyfforddiant / addysg / gwirfoddoli.

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

Mae’r Cyfeiriadur hwn yn rhoi manylion yr holl wasanaethau Tai â Chymorth y mae Tîm Atal Digartrefedd Cyngor Sir Ddinbych wedi’u comisiynu drwy’r Rhaglen Cymorth ym Maes Tai.

## Manylion cyswllt

Gallwch atgyfeirio rhywun at y gwasanaethau hyn drwy lenwi’r ffurflen atgyfeirio a’i hanfon i:

spoa@denbighshire.gov.uk

I gael cymorth a chyngor, a thrafod eich dewisiadau, mae modd hefyd:

E-bostio: homeless.prevention@denbighshire.gov.uk / Ffonio:  01824 712099

Cysylltu â’r Tîm Atal Digartrefedd o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 9am a 5pm a rhwng 9am a 4.30pm ar ddydd Gwener.

Mae modd cysylltu â ni yn y Siop Un Alwad neu ymweld ag un o’r Pwyntiau Siarad.

## Llwybr Atal Digartrefedd

Mae’n rhaid anfon unrhyw atgyfeiriad ar gyfer cymorth ym maes tai (ac eithrio llochesi a gwelyau at argyfwng) drwy’r Llwybr Atal Digartrefedd:

hppathway@denbighshire.gov.uk

Yna bydd y Llwybr yn canfod y prosiect cymorth mwyaf priodol ar gyfer yr atgyfeiriad sydd â lle gwag ar y pryd; gan ystyried anghenion a dymuniadau’r unigolyn a sicrhau mynediad teg a chyfartal at gefnogaeth. Weithiau mae’n rhaid i bobl fynd ar restr aros y Llwybr os nad oes lleoedd addas ar gael.

Gwneir ymdrech hefyd i sicrhau y goresgynnir unrhyw rwystrau rhag derbyn y gefnogaeth iawn, gan gynnwys cydlynu gwaith amlasiantaethol pan fo’r angen.

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

## Llwybr Cadarnhaol Pobl Ifanc

Partneriaeth yw hon rhwng y Tîm Atal Digartrefedd, y Gwasanaethau Plant a Chyfiawnder Ieuenctid. Mae’r Prosiect yn gweithio gyda’r holl bobl ifanc (rhwng 16 a 25 oed) sy’n cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych pan fyddant yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

## Swyddogion Atal Digartrefedd

Mae’r Swyddogion yn gweithio â phobl sy’n ddigartref neu mewn perygl o golli eu cartrefi i’w helpu i atal hynny rhag digwydd neu ddod o hyd i lety addas.

Os yw rhywun eisoes yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn y 56 o ddiwrnodau nesaf (pan ddaw’n ddyletswydd gyfreithiol i gynnig cymorth fel arfer), mae’r Swyddogion yn gweithio â hwy i gwblhau asesiad i ganfod y gefnogaeth allai fod ar gael a’r hyn a fyddai fwyaf addas yn ôl eu hanghenion a’u hamgylchiadau.

Maent wedyn yn gweithio â’r unigolyn ar Gynllun Tai Personol er mwyn eu hatal rhag mynd yn ddigartref neu ddod â chyfnod o ddigartrefedd i ben. Mae’r Swyddogion yn gweithio’n agos â phrosiectau cymorth ym maes tai er mwyn cynnig y gefnogaeth orau bosib i bob unigolyn.

## Llety Dros Dro a Chynnal Tenantiaethau

Mae’n ddyletswydd ar y Cyngor i ddarparu llety i bobl oherwydd rhai amgylchiadau neu anghenion penodol. Mae hynny’n dibynnu ar ganlyniad yr asesiad â’r Swyddogion Atal Digartrefedd y sonnir amdano uchod.

Mae’r Swyddogion Llety Dros Dro a Chynnal Tenantiaethau’n gweithio’n agos â landlordiaid er mwyn sicrhau bod llety’n ddigon da ac yn addas i bobl ag amryw anghenion.

Maent hefyd yn darparu cefnogaeth pan mae pobl yn symud i’w llety eu hunain, er mwyn sicrhau bod tenantiaethau newydd yn llwyddo ac yn para.

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

## Swyddogion Brysbennu Atal Digartrefedd

Y Swyddogion Brysbennu yw’r pwynt cyswllt cyntaf i bobl ar gyfer datgan eu bod yn ddigartref, cyflwyno ceisiadau drwy’r Un Llwybr Mynediad at Dai a cheisio cyngor. Maent yn sicrhau y caiff yr holl atgyfeiriadau at y Tîm Atal Digartrefedd eu brysbennu er mwyn canfod y dull gorau o ddarparu cefnogaeth. Mae’r Swyddogion Brysbennu’n darparu cyngor dibynadwy, cyfeirio ac atgyfeirio at wasanaethau eraill a rhoi gwybodaeth i’r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol.

## Un Llwybr Mynediad at Dai (Swyddogion Asesu)

Mae Sir Ddinbych yn darparu gwasanaeth Un Llwybr Mynediad at Dai sy’n golygu mai dim ond unwaith y mae angen i bobl wneud cais i fynd ar y Gofrestr Tai, yn hytrach na gwneud cais ar wahân i bob darparwr tai.

Mae’r holl ddarparwyr tai cymdeithasol yn Sir Ddinbych yn cymryd rhan yn yr Un Llwybr Mynediad at Dai, gan gynnwys:

- Cyngor Sir Ddinbych
- Tai Sir Ddinbych
- Grŵp Cynefin
- Clwyd Alyn
- Tai Gogledd Cymru
- Wales and West Housing
- ADRA
- Cartrefi Conwy

Bydd y Swyddogion Asesu’n pwyso a mesur eich angen am dŷ yn ôl eich amgylchiadau ac yn eich gosod yn un o’r pedwar o fandiau blaenoriaeth.

Os nad oes gennych angen am dŷ yn ôl meini prawf y cynllun bandio, gall y tîm roi cyngor ichi ynglŷn ag amrywiaeth o ddewisiadau fforddiadwy, gan gynnwys tai cymdeithasol, rhentu preifat, prynu tŷ ac unrhyw ddewisiadau eraill sydd ar gael yn Sir Ddinbych.

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

## Rhestr o wasanaethau cefnogi

### Cefnogaeth gyffredinol

Mae prosiectau hyn yn gallu gweithio â phobl ag amrywiaeth helaeth o anghenion cefnogaeth.

| **Prosiect Cefnogi a Darparwr y Gwasanaeth** | **Isafswm y bobl a gefnogir** | **Disgrifiad o'r Gwasanaeth** |
|---|---|---|
| ***Adullam Homes***: prosiect atal digartrefedd amlddisgyblaethol | 89 | Tai â chymorth a chefnogaeth yn ôl yr angen i bobl 16 oed a hŷn sy'n amrywio'n fawr o ran eu hanghenion a'u hamgylchiadau. Mae'n cynnwys o leiaf 35 o unedau tai â chymorth a 54 o unedau ar gyfer cefnogaeth yn ôl yr angen. |
| **Cefnogaeth yn ôl yr Angen i bobl dros 25** - Cymdeithas Tai Clwyd Alyn | 54 | Tai â chymorth a chefnogaeth yn ôl yr angen i bobl 25 oed a hŷn sy'n amrywio'n fawr o ran eu hanghenion a'u hamgylchiadau. |

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

| Prosiect Cefnogi a Darparwr y Gwasanaeth | Isafswm y bobl a gefnogir | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Tŷ Golau** - partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Chymdeithas Tai Clwyd Alyn | 7<br>4<br>4 | Gwelyau at argyfwng, tai â chymorth a chefnogaeth yn ôl yr angen. Mae tair gwahanol elfen i'r gwasanaeth sydd oll yn gysylltiedig:<br><br>• Gwelyau at Argyfwng: gwasanaeth mynediad uniongyrchol sy'n cynnig gwelyau mewn argyfwng mewn ystafelloedd cysgu i ddynion a merched sy'n 18 neu'n hŷn, heb blant dibynnol, ac sydd heb unman diogel i aros ynddo. Mae'r prosiect fel arfer yn cynnig trwydded tair noson a bydd yn gweithio gyda dinasyddion i'w symud ymlaen i lety mwy sicr (er enghraifft, tai â chymorth neu eu tenantiaeth eu hunain) cyn gynted â phosibl.<br>• Yr Hostel: tai â chymorth tymor byr (hyd at dri mis) i bobl 18 a hŷn heb blant dibynnol, sy'n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref. Rhennir yr ardaloedd cymunedol â'r preswylwyr eraill ac mae staff wrth law 24 awr y dydd.<br>• Gwasanaeth Cefnogaeth Dwysedd Uchel: cefnogaeth yn ôl yr angen i bobl 18 a hŷn heb blant dibynnol, sydd naill ai'n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref. |

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

| **Prosiect Cefnogi a Darparwr y Gwasanaeth** | **Isafswm y bobl a gefnogir** | **Disgrifiad o'r Gwasanaeth** |
|---|---|---|
| **Tîm Cymorth Tenantiaid Cyngor Sir Ddinbych** | 50 | Mae Swyddogion Cymorth Tenantiaid yn darparu amrywiaeth helaeth o **gefnogaeth yn ôl yr angen** ar gyfer tenantiaethau er mwyn atal pobl rhag mynd yn ddigartref yn statudol a chael eu troi allan o'u cartrefi, yn bennaf yn Nhai Cymunedol Sir Ddinbych, ac yn ddelfrydol maent yn ymyrryd yn gynnar. Mae'r Tîm Cymorth Tenantiaid hefyd yn cynorthwyo tenantiaid newydd Tai Cymunedol Sir Ddinbych i setlo ar ôl bod yn ddigartref. |
| **Cynnal Annibyniaeth Gartref** - Byw'n Annibynnol â Chymorth, Cyngor Sir Ddinbych | 120 | Cefnogaeth yn ôl yr angen i bobl sy'n amrywio'n helaeth o ran eu hanghenion a'u hamgylchiadau, gan weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau Ailalluogi ac Iechyd. Mae'r bobl sy'n derbyn cefnogaeth dros 50 oed fel arfer. |

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

| **Prosiect Cefnogi a Darparwr y Gwasanaeth** | **Isafswm y bobl a gefnogir** | **Disgrifiad o'r Gwasanaeth** |
|---|---|---|
| **Fy Nghartref Sir Ddinbych** - Shelter | 110 | Prosiect ymyrraeth gynnar sydd â'r nod pennaf o gefnogi pobl yn Sir Ddinbych fel nad oes angen iddynt byth ddod i gysylltiad â'r system Digartrefedd. Mae'n gweithio ag amrywiaeth helaeth o bobl (16 oed a hŷn) sydd â nifer o wahanol anghenion cymorth, gan gynnwys problemau ariannol, perthnasoedd yn chwalu a chyfryngu rhwng landlordiaid preifat a thenantiaid. Y bwriad yw bod hynny'n helpu i gynnal tenantiaethau, atal tlodi tanwydd a dadfeiliad eiddo ac yn y blaen, yn galluogi pobl i wneud dewisiadau doeth, gyda chyngor, a chael gwell rheolaeth dros eu sefyllfaoedd, ac yn rhoi'r grym iddynt gyflawni eu hymrwymiadau a'u cyfrifoldebau'n annibynnol heb golli mwy o reolaeth. |
| **Cefnogaeth yn ôl yr angen GIFT** - Y Wallich | 60 | Cefnogaeth yn ôl yr angen i bobl sy'n amrywio'n fawr o ran eu hanghenion a'u hamgylchiadau. |

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

| Prosiect Cefnogi a Darparwr y Gwasanaeth | Isafswm y bobl a gefnogir | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Cymorth mewn Llety Dros Dro mewn Argyfwng**<br>**Byddin yr Iachawdwriaeth** | 32 | Cymorth â phob agwedd ar dai i bobl sy'n byw mewn llety dros dro mewn argyfwng sy'n eiddo i Gyngor Sir Dinbych. Rhoddir cefnogaeth i bobl o bob rhyw sy'n 16 oed a hŷn, yn sengl neu'n rhan o gwpl, boed ganddynt blant dibynnol ac anifeiliaid anwes neu beidio. Mae'r rhan helaeth o bobl sy'n derbyn cymorth yn byw mewn llety dros dro mewn argyfwng yn Sir Ddinbych y mae Cyngor Sir Ddinbych yn berchen arno a'i reoli, wedi nodi eu hanghenion am gefnogaeth i gadw llety, osgoi mynd yn ddigartref eto a symud i rywle mwy addas i fyw. |

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

## Cefnogaeth ar gyfer Cam-drin Domestig

| Prosiect Cefnogi a Darparwr y Gwasanaeth | Isafswm y bobl a gefnogir | Disgrifiad o’r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Cefnogaeth yn ôl yr Angen ar gyfer Cam-drin Domestig a Llochesau Sir Ddinbych** - Uned Diogelwch Trais Teuluol | • 20 - 25 o Aelwydydd yn derbyn Lloches<br>• 35 - 60 yn derbyn Cefnogaeth yn ôl yr Angen | Gwasanaeth cefnogaeth yn ôl yr angen ar gyfer o leiaf 35 o ddinasyddion sydd ag anghenion cefnogaeth oherwydd cam-drin domestig, ac o ganlyniad i hynny’n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref. Darperir llety lloches brys gyda mynediad uniongyrchol hefyd, sy’n cynnig cefnogaeth i hyd at 25 o ddinasyddion a’u plant sy’n ffoi o gam-drin domestig, ac felly’n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref. |

## Tîm Cymorth i Deuluoedd

| Prosiect Cefnogi a Darparwr y Gwasanaeth | Isafswm y bobl a gefnogir | Disgrifiad o’r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Tîm Cymorth i Deuluoedd** - Cyngor Sir Ddinbych | 59 | Cefnogaeth yn ôl yr angen i deuluoedd sy’n gweithio â gwasanaethau statudol yng nghyswllt amddiffyn plant neu blant mewn angen, yn ogystal â theuluoedd sydd ag angen brys am y gwasanaethau statudol hynny. Mae’r prosiect hefyd yn cefnogi pobl ifanc sy’n gadael gofal Cyngor Sir Ddinbych pan mae’r ddyletswydd statudol yn parhau. |

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

## Cefnogaeth Iechyd Meddwl

| Darparwr Gwasanaeth | Isafswm y bobl a gefnogir | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Cefnogaeth yn ôl yr Angen ar gyfer Iechyd Meddwl** - Gorwel | 12 | Cefnogaeth yn ôl yr angen i bobl ag anghenion cymorth iechyd meddwl, gan gynnwys pobl sydd heb gael diagnosis ffurfiol. Gall fod gan bobl amrywiaeth helaeth o anghenion cymorth iechyd meddwl, gan gynnwys pethau fel hwyliau isel neu orbryder oherwydd eu hamgylchiadau tai. |
| **Cefnogaeth yn ôl yr Angen ar gyfer Iechyd Meddwl** - Stori Cymru | 6 | Prosiect tai a chymorth dwysedd uchel (chwech o unedau) ar gyfer pobl ddiamddiffyn ag anghenion iechyd meddwl sy'n byw yn Sir Ddinbych ac yn ddigartref neu dan fygythiad o fod. |
| **Tîm Iechyd Meddwl Tai** | 55 | Cefnogaeth yn ôl yr angen â thai i bobl ag anghenion iechyd meddwl yn bennaf. Darperir cefnogaeth i unrhyw un sy'n cael trafferth bodloni eu hanghenion tai, sy'n ddigartref neu dan fygythiad o fod. Pennir lefel y gefnogaeth yn ôl anghenion yr unigolyn. |

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

| Darparwr Gwasanaeth | Isafswm y bobl a gefnogir | Disgrifiad o’r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Tai â Chymorth** - Adferiad | 7 | Prosiect tai â chymorth dwysedd uchel (tri o unedau mewn tŷ a rennir a phedwar o fflatiau mewn gwahanol leoliadau) i ddarparu llety a chefnogaeth i bobl sy’n ddigartref ag anghenion iechyd meddwl.<br><br>Darperir cefnogaeth i bobl nad ydynt yn derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd neu’n bodloni’r meini prawf ar eu cyfer, ond sy’n derbyn gofal sylfaenol ar gyfer anghenion iechyd meddwl. Mae’r prosiect hefyd yn cefnogi pobl y nodir fod ganddynt anghenion iechyd meddwl drwy asesiad “digartrefedd”.<br><br>Mae staff yn darparu gweithgareddau cefnogi yn y llety ac yn y gymuned. Darperir gwasanaeth ar alw 24 awr y dydd.<br><br>Mae defnyddiwyd y gwasanaeth yn bobl 18 oed a hŷn sy’n byw yn Sir Ddinbych ac sydd naill ai’n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref. |

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

## Prosiectau Dan 25

| Prosiect Cefnogi a Darparwr y Gwasanaeth | Isafswm y bobl a gefnogir | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| **Y Dyfodol** - Cymdeithas Tai Clwyd Alyn | 29 | Prosiect tai â chymorth ar gyfer pobl ifanc heb blant dibynnol. Mae dwy elfen i'r prosiect:<br>• Unedau â staff 24 awr y dydd: mae'r prosiect yn cynnig nifer o fflatiau ar brif safle'r prosiect sydd naill ai'n cael eu rhannu rhwng dau o bobl ifanc o'r un rhyw neu'n fflatiau unigol gyda deiliadaeth unigol.<br>• • Allgymorth: darperir yr elfen hon o'r gefnogaeth mewn fflatiau hunangynhwysol y gellir eu defnyddio fel llety symud ymlaen / cam i lawr o'r unedau â staff 24 awr y dydd. |
| **Tai â Chymorth a Chefnogaeth yn ôl yr Angen yr Hafod** - Grŵp Cynefin | 12 | Tai â chymorth a chefnogaeth yn ôl yr angen. Darperir chwech o unedau llety â chymorth i bobl ifanc heb blant dibynnol. Cynigir fflatiau hunangynhwysol ynghyd ag ardaloedd a rennir ac mae staff y prosiect wrth law 24 awr y dydd. Mae gan y prosiect gysylltiad agos gyda Hwb Dinbych a disgwylir y bydd y bobl ifanc sy'n cyfranogi o'r prosiect yn cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg / hyfforddiant / cyflogaeth / gwirfoddoli. Darperir y gefnogaeth yn ôl yr angen i bobl ifanc boed ganddynt blant dibynnol neu beidio. |

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

## Cefnogaeth Camddefnyddio Sylweddau

| Prosiect Cefnogi a Darparwr y Gwasanaeth | Isafswm y bobl a gefnogir | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| ***Doorstop*** - Y Wallich | 7 | Cefnogaeth yn ôl yr angen a thai â chymorth ar gyfer pobl heb blant dibynnol, sydd ag anghenion cefnogaeth yn deillio o ddefnyddio sylweddau (gan gynnwys alcohol). Mae'r bobl sy'n cael mynediad i'r prosiect fel arfer yn derbyn triniaeth / yn adfer (er enghraifft, wedi mynd drwy ddadwenwyno neu'n cael meddyginiaeth ar bresgripsiwn), ond rhoddir ystyriaeth hefyd i bobl sy'n dymuno mynd i'r afael â'u hanghenion cefnogaeth sy'n deillio o ddefnyddio sylweddau ond sydd heb geisio'r gefnogaeth briodol eto. Mae o leiaf un uned o gefnogaeth yn ôl yr angen a chwech o unedau llety â chymorth hunangynhwysol. |

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

## Gwasanaethau ychwanegol

| Prosiect Cefnogi a Darparwr y Gwasanaeth | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|
| **Sir Ddinbych yn Gweithio** - Swyddog Mentora Cyflogaeth | Mae'r Mentor Cyflogaeth yn darparu gwasanaeth hyblyg a graenus mewn partneriaeth â Swyddogion Atal Digartrefedd Sir Ddinbych a phrosiectau cyflogadwyedd eraill fel rhan o ddull integredig Sir Ddinbych yn Gweithio.<br><br>Darperir cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth i unrhyw un yn Sir Ddinbych sy'n iau na 35 oed, yn ddi-waith neu'n brin o waith ac yn ddigartref neu mewn perygl o fod, er mwyn eu helpu i adnabod y rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael gwaith, a'u goresgyn. Mae hynny'n cynnwys:<br><br>• Cefnogaeth unigol i gyfranogwyr sy'n gymwys i dderbyn gwasanaethau drwy'r rhaglen<br>• Cynnig cefnogaeth fwy personol i bobl drwy ganolbwyntio ar yr unigolion a'u cryfderau<br>• Bod yn gyfrifol am fentora a hyfforddi cyfranogwyr, a rhoi grym ac anogaeth iddynt gynllunio camau ymarferol i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael gwaith a chyfleoedd hyfforddiant.<br>• Galluogi pobl i gychwyn eu taith at waith cynaliadwy neu wneud cynnydd mewn swydd a chodi uwchlaw tlodi yn y tymor hir.<br>• Arfer dull sy'n seiliedig ar asedau ac annog pobl i fentro'n gadarnhaol: gwneud y gorau o gryfderau ac adnoddau'r bobl eu hunain a chydnabod mai hwy yw'r arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain. |

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

| Prosiect Cefnogi a Darparwr y Gwasanaeth | Disgrifiad o'r Gwasanaeth |
|---|---|
| **Grŵp Cynefin** – Byw yn Annibynnol | Mae'r prosiect hwn yn darparu cymorth a gwybodaeth ymarferol i bobl ifanc ledled Conwy a Sir Ddinbych ynglŷn â byw'n annibynnol a digartrefedd ymysg pobl ifanc. |
| **NACRO** – Adsefydlu | Gweithiwn â phobl 16 oed a hŷn yn Sir Ddinbych sy'n ddigartref neu'n bosib o fod. Ceisiwn helpu pobl a'u teuluoedd i adsefydlu yn y gymuned leol a'u cefnogi ar y cychwyn wrth iddynt wneud hynny.<br><br>Mae ein cefnogaeth yn cynnwys:<br><br>• Gwybodaeth a chyngor ynglŷn â dewisiadau tai<br>• Help i ymgeisio am grantiau i dalu rhent o flaen llaw, blaendaliadau a dodrefn os ydynt yn gymwys<br>• Cyngor ynglŷn ag ôl-ddyledion rhent a thaliadau rhent ychwanegol<br>• Cyngor ynglŷn â chynnal perthynas dda â landlordiaid a chymdogion<br>• Gweithio â Thîm Atal Digartrefedd Sir Ddinbych i helpu pobl i gyflawni eu Cynlluniau Tai Personol<br>• Cyfeirio at yr asiantaethau arferol ac atgyfeirio at wasanaethau arbenigol os oes angen. |

# Cyfeiriadur o Wasanaethau Cefnogaeth ym maes Tai

| **Prosiect Cefnogi a Darparwr y Gwasanaeth** | **Disgrifiad o'r Gwasanaeth** |
|---|---|
| **Cynllun Bondiau NACRO** | Mae NACRO yn gweithredu cynllun bondiau sy'n helpu pobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod i ddod o hyd i lety sicr. Gwneir hyn ar ffurf talu gwarant yn lle blaendal arian parod i landlord preifat.<br><br>Cymhwysedd<br><br>I fod yn gymwys ar gyfer y cynllun, mae'n rhaid i rywun fod yn ddigartref neu mewn perygl o fod, ac yn byw yng Nghonwy neu Sir Ddinbych.<br><br>Mae'r cynllun yn agored i deuluoedd a phobl ar eu pennau'u hunain. Nid oes unrhyw gyfyngiadau oedran. |
| ***Intuitive Thinking Skills*** | Mae *Intuitive Thinking Skills* yn cynnal Rhaglen Llysgenhadon sy'n recriwtio a hyfforddi pobl sydd wedi byw drwy brofiadau i weithio yn y gwasanaethau eu hunain fel gwirfoddolwyr / Llysgenhadon. Mae'r rhaglen yn cynnwys dau o gyrsiau achrededig a mentora un i un sy'n rhoi'r grym i bobl gefnogi eraill sy'n cael profiadau tebyg.<br><br>Mae *Intuitive Thinking Skills* hefyd yn darparu mentora arbenigol ynghylch ymddygiad a newid agweddau. |